| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG** |
| **DYDDIAD:** | **12 MAI 2015** |
| **TEITL:** | **CAIS I AMRYWIO TRWYDDED EIDDO – 346-350 STRYD FAWR, BANGOR** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH YR ADRAN RHEOLEIDDIO** |

## MANYLION Y CAIS

Derbyniwyd cais i amrywio trwydded eiddo 346-350 Stryd Fawr, Bangor ar 25 Mawrth 2015 gan Mr Mangal Shoker, deilydd y drwydded eiddo. Gwelir copi o'r cais i amrywio yn Atodiad 1.

Cafodd y drwydded gyfredol ei ganiatáu yn dilyn gwrandawiad o'r Is-bwyllgor Trwyddedu Canolog ar 23 Ebrill 2012 pryd caniateir

- i werthu alcohol i'w yfed oddi ar yr eiddo rhwng 08:00 – 22:00, saith diwrnod yr wythnos.
- i oriau agor yr eiddo fod yn 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos
- i ymgorffori yn y drwydded yr amod a argymhellwyd gan yr Heddlu parthed theledu cylch cyfyng.

**Pwrpas y cais yma i amrywio'r drwydded eiddo yw ymestyn oriau gwerthu alcohol i'w yfed oddi ar yr eiddo rhwng 08:00 a 02:00, saith diwrnod yr wythnos.**

Mae'r camau mae'r ymgeisydd yn bwriadu cymryd i hyrwyddo'r pedwar amcan Trwyddedu i'w weld yn Rhan M o'r cais. (Gwelir Atodiad 1.)

## SYLWADAU

| Ymatebion | Sylwadau |
|---|---|
| Heddlu Gogledd Cymru | E-bost – Gwrthwynebiad |
| Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru | Llythyr – dim sylw |
| Cyngor Sir Bangor | E-bost - dim gwrthwynebiad ar yr amod bod yr oriau agor ar gyfer gwerthu alcohol yn unol â siopau tebyg eraill yn y cyffiniau. |

Yr unig wrthwynebiad a dderbyniwyd ynghylch y cais hwn oedd oddi wrth Heddlu Gogledd Cymru. Mae'r Heddlu o'r farn bydd caniatáu'r cais yn arwain at gynnydd mewn trosedd ac anrhefn yn yr ardal hon o Fangor. Maent yn argymell oriau diwygiedig ar gyfer gwerthu alcohol yn ystod yr wythnos ac yn argymell addasu'r amod teledu cylch cyfyng sydd ar y drwydded. (Gwelir Atodiad 2.)

## ARGYMHELLIAD

Gofynnir i'r is-bwyllgor ystyried y cais i amrywio'r drwydded eiddo yn unol ag amcanion Deddf Trwyddedu 2003.